Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Gwneud penderfyniadau cyllidol teg

Nodyn briffio i Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Bydd y dirywiad economeg diweddar yn effeithio'n arwyddocaol ar yr holl awdurdodau cyhoeddus. Er y ceisir am ostyngiadau yn lefel gyffredinol gwariant cyhoeddus bydd llawer ohonynt o dan bwysau parhaol i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Ers 2009, mae Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach wedi dioddef cyfyngiadau cyllid arwyddocaol er mwyn bodloni'r targedau a osodwyd gan y Llywodraeth mewn perthynas ag arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) yn deall y bu rhaid i lawer o'r Sefydliadau Addysg hyn wneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd yn aml, ac yn dal yn gorfod eu gwneud, o ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn gan gynnwys toriadau cyllideb, ad-drefniadau ac ail-leoli, diswyddiadau, a gostyngiadau gwasanaeth.

Mae'r Comisiwn wedi derbyn nifer cynyddol o adroddiadau yn y misoedd diwethaf ynglŷn ŷ modd y mae'r penderfyniadau hyn yn cael ei wneud. O'r dystiolaeth rydym wedi derbyn, rydym yn poeni am y dull y mae rhai sefydliadau'n cymryd i wneud y penderfyniadau hynny, ac i'r graddau y mae sefydliadau'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus.[1]

Felly rydym o'r farn ei bod yn briodol i ni atgoffa'r Sefydliadau Addysg hyn o'u dyletswyddau i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu a hyrwyddo cydraddoldeb ar sail anabledd, rhyw a hil yn eu gweithgareddau. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb yn rhwymedigaethau cyfreithiol a ddylai aros yn flaenoriaeth, hyd yn oed mewn cyfnodau o anawsterau economaidd. Hefyd mae'r dyletswyddau'n declyn amhrisiadwy sy'n gallu

- [1]Gelwch http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cyngor-ac-arweiniad/dyletswyddau-sector-cyhoeddus/cyflwyniad-i-ddyletswyddau-r-sector-cyhoeddus/beth-yw-dyletswyddau-r-sector-cyhoeddus/ am fanylion

bod yn gymorth wrth wneud penderfyniadau a helpu i sicrhau na fydd penderfyniadau'n creu neu'n parhau'r anghydraddoldeb. Yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, mae hyn yn golygu bod angen i Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach fod yn arbennig o wyliadwrus i sicrhau'r bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud i arbed arian yn lleihau annhegwch ac nid yn effeithio'n anghyfartal negyddol ar bobl o grwpiau ethnig gwahanol, pobl anabl, a dynion a menywod gan gynnwys dynion trawsrywiol a dynion trawsryweddol a menywod trawsrywiol a menywod trawsryweddol. Er enghraifft, bydd cau gwasanaethau gofal plant i lawr yn debygol i effeithio'n anghyfartal o anffafriol ar y nifer o fenywod fydd yn gallu ymgymryd ag addysg neu gadw ymlaen â'u hastudiaethau; hwyrach y byddai cyfyngu ar wasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn effeithio'n anghyfartal o anffafriol ar fyfyrwyr anabl; hwyrach byddai cyfyngu ar gymorth ieithyddol i fyfyrwyr rhyngwladol yn effeithio'n anghyfartal o anffafriol ar y nifer o siaradwyr Saesneg eu hiaith sydd gan goleg, nad ydynt yn frodorion. Er mwyn gwneud hyn, mae rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach:

• ymgymryd ag asesiadau grymus ar effaith ar gydraddoldeb , ac

• ymgynghori a chynnwys rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

Wrth ymgymryd ag asesiadau o'r fath, mae'n hanfodol i ystyried cydberthynas posibl y polisïau ac, yn yr amgylchiadau hynny, i ddwyn y sawl sy'n gyfrifol am gynllunio/diwygio'r polisïau hynny i mewn i'r broses asesu cyn gynted â phosibl. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb yn golygu y bydd rhaid i chi, fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth, hyrwyddo cydraddoldeb rhwng pobl o grwpiau ethnig gwahanol, pobl anabl, a dynion a menywod gan gynnwys dynion trawsrywiol , dynion trawsryweddol, menywod trawsrywiol a menywod trawsryweddol. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'ch gweithlu cyfan a'ch holl ddefnyddwyr gwasanaeth.
Yn y cyd-destun hwn, wrth i chi ystyried effaith ymarferion cyflogaeth (ac yn wir, gwasanaethau, polisiau ac ati) mae'n bwysig i chi sicrhau eich bod chi'n gallu ystyried yr effaith bosibl hefyd ar gydraddoldeb

yn ei gyfanrwydd, o'i gyferbynnu'n syml mewn perthynas ag un grŵp o bobl. Heblaw i chi rhywfodd, adeiladu'r math hwn o ystyriaeth i mewn i'ch asesiadau effaith, efallai y byddwch o bosib wrth weithredu, yn gwaethygu'r gwahaniaeth sy'n bodoli rhwng grwpiau gwahanol ar sail rhyw, hil neu anabledd ac felly heb fedru bodloni'n gyffredinol gofynion y dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus. Dyma paham y byddai'r Comisiwn bob amser yn argymell i Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach i ymgymryd ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) drwy ddefnyddio:

1. 'Dull gweithlu cyfan' wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â phersonél gan gynnwys er enghraifft cynlluniau pensiwn neu ddiswyddiadau.

Enghraifft: Mae awdurdod yn gweithredu cynlluniau pensiwn gwahanol i gategorïau gwahanol o staff. Os ystyrir newidiadau i un, bydd angen ystyried yr effaith go iawn neu'r effaith o bosib y cynlluniau eraill ar gydraddoldeb yn gyffredinol (ac nid y rhai sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan y newidiadau'n unig) i sicrhau na fydd anghydraddoldebau rhwng categorïau gwahanol o weithwyr yn cael eu gwaethygu neu'u parhau.

2. Dull gwasanaethau cyfan wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chau gwasanaethau fel cyrsiau neu wasanaethau cymorth i fyfyrwyr i lawr neu gyfyngu arnynt.

Enghraifft

Mae prifysgol yn ystyried cyfyngu ar nifer y cyrsiau iaith a thechnoleg y mae'n ei darparu. Mae'r brifysgol yn ymwybodol mai menywod sy'n ymgymryd fwyaf â chyrsiau iaith er mai dynion sy'n ymgymryd fwyaf â chyrsiau technoleg. Os bydd newidiadau'n cael eu hystyried i un o'r cyrsiau, bydd rhaid ystyried yr effaith go iawn neu'r effaith posibl ar gydraddoldeb y ddau gynnig i sicrhau na fydd anghydraddoldebau rhwng grwpiau cydraddoldeb gwahanol, yn arbennig dynion a menywod yn yr achos hwn, yn cael eu parhau neu'u gwaethygu.

Hefyd dylai Asesiadau Effaith Cydraddoldeb:

• Ystyried yr effaith ar y staff a'r myfyrwyr sy'n bodoli yn ogystal â'r rhai newydd posibl.

• Cael eu cynnal gan ddata cydraddoldeb mewnol yn ogystal ag ymchwil rhanbarthol a gwladol, yn enwedig pan fydd data mewnol yn brin.

• Cynnwys lefel digonol o fanylder ar y cyflwyniadau a wnaed gan y defnyddwyr gwasanaeth a'r gweithwyr hynny a byddai'n debygol o gael eu heffeithio gan yr opsiynau arbed effeithlonrwydd a ystyriwyd.

• Ffurfio'r broses gwneud penderfyniadau - mae angen iddyn nhw gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r opsiynau arbed effeithlonrwydd i uwch gyrff rheoli Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach.

• Ystyried sut y gall unrhyw effaith groes a nodwyd drwy'r broses asesu effaith cydraddoldeb gael ei ysgafnhau.

Hoffai'r Comisiwn bwysleisio ei bod hi'n hanfodol y bydd uwch gyrff rheoli'r Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach yn sicrhau bod yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn rhai grymus a bod yr effaith negyddol ar grwpiau arbennig a nodwyd yn cael ei ystyried yn drylwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gweithluoedd a/neu'u defnyddwyr gwasanaeth. Byddai peidio ag ymgymryd ag asesiadau grymus yn debygol o weld y Sefydliadau Addysg hyn yn gwneud penderfyniadau pwysig heb asesu effaith negyddol posibl y penderfyniadau hynny'n llwyr ynglŷn â hil, anabledd a rhyw a heb ystyried yr holl opsiynau sy'n agored iddynt ac felly yn colli cyfleoedd posibl i:

• ysgafnhau unrhyw effaith negyddol a nodwyd

• hyrwyddo cydraddoldeb a/neu hawliau dynol, a

• meithrin cysylltiadau da.

Er enghraifft, dylai Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach sy'n ystyried cyfyngu ar eu gwasanaethau gofal plant, ystyried gweithio mewn partneriaeth â'u hawdurdodau lleol [2] i gadw'u gwasanaethau'n agored fel rhan o'r opsiynau y gallan nhw roi ar waith i ysgafnhau ar unrhyw effaith a nodwyd ganddynt ynglŷn â'u staff a'u myfyrwyr.
Hoffai'r Comisiwn bwysleisio y byddai Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Pellach sy'n peidio ag ymgymryd ag asesiadau effaith cydraddoldeb grymus, hwyrach yn rhoi eu hunain yn agored i achosion cyfreithiol drud ac sy'n niweidiol i'w henwau da.[3] Nid yw'r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus yn rhwystro awdurdodau rhag gwneud y penderfyniadau hyn, a bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â'r dyletswyddau. Oni bai fod awdurdod cyhoeddus yn gallu osgoi unrhyw effaith negyddol posibl sy'n codi o ganlyniad y penderfyniad, byddai rhaid egluro hynny a'i wneud yn ystyriaeth allweddol i weithredu yn y dyfodol, fel ystyried effaith y penderfyniad pan fydd y sefyllfa ariannol wedi gwella.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi canllawiau newydd yn ddiweddar (ar gael yn http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cyngor-ac-arweiniad/dyletswyddau-sector-cyhoeddus/canllaw-a-chodau-ymarfer/canllawiau-cyffredinol) ar sut i ymgorffori asesu effaith cydraddoldeb i mewn i brosesau gwneud polisïau ac adolygu, a symud canllawiau ar y dyletswyddau a phenderfyniadau cyllidol ymlaen. Dylai awdurdodau cyhoeddus gael y canllawiau hyn yn berthnasol wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb sengl gan y bydd hi'n debygol o ganlyniad i'r Mesur Cydraddoldeb sydd ar fin dod, y bydd rhaid i awdurdodau cyhoeddus ddangos sut y maen nhw wedi ystyried y dystiolaeth o'r effaith ar gydraddoldeb wrth iddynt gynllunio polisïau allweddol a mentrau cyflenwi gwasanaeth, a sut y mae'r rheiny wedi arwain i gydraddoldeb gwell. [4]

---

2 Ers 1 Ebrill 2008, mae dyletswydd statudol gan awdurdodau lleol o dan Adran 6 o'r Ddeddf Gofal Plant 2006 i sicrhau gofal plant digonol i alluogi rhieni i weithio, neu i ymgymryd ag addysg a hyfforddiant yn arwain at waith.

3 Gwelwch, ee, achos Cyngor Harrow yn ein canllawiau ar 'y dyletswyddau sector cyhoeddus a phenderfyniadau cyllidol'.

4 Ynglŷn â hil, rhyw, newid rhyw, anabledd, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac oed.

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission